TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

10 Mehefin 2025

Annwyl Llyr Gruffydd AS

Dw i'n ysgrifennu mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith ar wasanaethau rheilffyrdd a pherfformiad Trafnidiaeth Cymru 2024-25. Fel bob amser, rydym yn croesawu craffu'r Pwyllgor ar ein perfformiad ac rydym yn ddiolchgar am eich argymhellion sy'n ein helpu i herio ein hunain yn barhaus i sicrhau ein bod yn darparu rhwydwaith trafnidiaeth y mae pobl Cymru yn ei haeddu.

Hoffwn ddiolch i chi am yr amser a gymerwyd gennych i baratoi'r adroddiad hwn ac am ystyried y dystiolaeth rydym wedi'i chyflwyno i chi. Fel y cydnabuwyd gennym yn ystod ein sesiwn graffu yn gynharach eleni, nid oedd 2024 heb ei heriau gweithredol i Trafnidiaeth Cymru. Fodd bynnag, y llynedd fe wnaethom gyflawni rhai cerrig milltir pwysig ac rydym yn agosach nag erioed at gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer trafnidiaeth wirioneddol integredig yng Nghymru. Ymhellach i hyn, nid yw rhan gyntaf 2025 wedi bod yn wahanol ac ers i ni gyfarfod â'r Pwyllgor ym mis Ionawr, rydym wedi gwneud cynnydd ar draws sawl maes o'r busnes.

Rydym wedi parhau i gyflwyno ein cerbydau newydd ar draws y rhwydwaith ac mae 77% o deithiau cwsmeriaid bellach yn digwydd ar drenau newydd. Wrth i fwy o gerbydau newydd fod ar gael i deithwyr eu defnyddio ac wrth i ddefnydd y fflyd a etifeddwyd gennym ddod i ben, dros amser, bydd y ganran hon yn cynyddu. O fis Ebrill ymlaen, dechreuom brofi ein trenau tram trydan newydd sbon am y tro cyntaf ar linellau'r Cymoedd, cam arwyddocaol yn nhrawsnewidiad Metro De Cymru, ac mae gwaith peirianneg wedi dechrau ar lein Rhymni Uchaf i'n galluogi i drydaneiddio rhan olaf rhwydwaith y Metro tua diwedd y flwyddyn hon. Ym mis Ebrill, lansiwyd ap partneriaeth tanysgrifio a theyrngarwch newydd, o'r enw JurnyOn, sy'n gwobrwyo teithwyr am eu teithiau ar wasanaethau TrC fel rhan o'n hymrwymiad i gynnig prisiau gwell i gwsmeriaid. Mae'r ap yn cynnig llu o fuddion i gwsmeriaid, gan gynnwys gostyngiadau ar docynnau trên a brynir ymlaen llaw a'r cyfle i ennill pwyntiau teyrngarwch am filltiroedd a deithiwyd ar wasanaethau TrC.

Fel bob amser, rydym wedi ymrwymo i gynnal y momentwm cyffrous hwn yn y flwyddyn nesaf, ac edrychaf ymlaen at rannu ein gwelliant parhaus gyda'r Pwyllgor. Byddaf yn manteisio ar y cyfle hwn nawr i ymateb i bob un o'r 20 argymhelliad a nodir yn yr adroddiad.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the Welsh Government

Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013.
Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Registered Office Address: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**Argymhelliad 1: Dylai Trafnidiaeth Cymru gymryd camau pellach i recriwtio menywod i rolau gweithredol allweddol, fel gyrru trenau a pheirianneg, drwy recriwtio wedi'i dargedu, mentora, a chynlluniau arweinyddiaeth. Dylid darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd, gan gynnwys manylion ymyriadau penodol, o fewn chwe mis.**

**Ymateb:** Derbyn

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae TrC wedi gwneud gwelliannau sylweddol o ran nifer y menywod mewn rolau gweithredol allweddol, fel Gyrwyr a Pheirianwyr. Fodd bynnag, rydym yn ymdrechu'n barhaus i sicrhau bod TrC yn wirioneddol gynrychioliadol o'r bobl rydym yn eu gwasanaethu. Fel y dangosais yn ein sesiwn graffu ar Ionawr 25, mae ein hymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu a'n gweithgareddau ymgysylltu â menywod trwy bartneriaethau ystyrlon â sefydliadau allweddol wedi bod wrth wraidd ein strategaeth i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu. O ganlyniad, rydym wedi gweld nifer o ganlyniadau cadarnhaol gan gynnwys recriwtio ein Cyfarwyddwr Gweithredol benywaidd cyntaf a'n carfan Gyrwyr gyntaf sydd wedi'i rhannu'n 50/50 rhwng y rhywiau. Byddwn yn parhau â'r ymdrech hon i ymgysylltu â menywod a'u recriwtio yn TrC, a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein cynnydd ym mis Medi 2025.

**Argymhelliad 2: Dylai Trafnidiaeth Cymru gyflymu ymdrechion i wella amrywiaeth y gweithlu drwy ehangu ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu y tu hwnt i Fae Caerdydd a Threbiwt i rannau eraill o Gymru. Yn ogystal â hyn, dylai Trafnidiaeth Cymru gryfhau partneriaethau â sefydliadau sy'n cefnogi grwpiau lleiafrifol i wella cynhwysiant ar draws y gweithlu. Dylid darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd, gan gynnwys manylion ymyriadau penodol, o fewn chwe mis.**

**Ymateb:** Derbyn

Eleni byddwn yn canolbwyntio ar gryfhau ein partneriaethau cymunedol amrywiol presennol ac archwilio partneriaethau newydd er mwyn targedu ymgeiswyr amrywiol pan fydd cyfleoedd swyddi ar gael.

Er enghraifft, rydym wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ddiweddar gydag Oasis a Chyngor Ffoaduriaid Cymru i adeiladu pecyn cymorth a fydd yn ein galluogi i ddod yn gyflogwr sy'n hyderus o ran ffoaduriaid. Rydym hefyd wedi bod yn adeiladu ar ein perthynas â Chyngor Mwslimiaid Cymru, gan lunio partneriaeth â nhw i hyrwyddo ein swyddi gwag gyda'u cymeradwyaeth. Ein nod yw datblygu ymgyrchoedd lluosog, gan gynnwys o fewn ein cynlluniau Talent Gynnar, i sicrhau ein bod yn hyrwyddo ein cyfleoedd ac yn dod yn sefydliad aml-ffydd cynhwysol.

Credwn fod y partneriaethau hyn yn allweddol i'n galluogi i ddyfnhau ein dealltwriaeth o ymgeiswyr amrywiol o grwpiau lleiafrifol, targedu ein recriwtio at bobl ledled Cymru a gwella sgiliau'n barhaus ar gyfer cyfathrebu cynhwysol ac arferion cyflogi teg. Byddwn yn rhoi diweddariad mwy cynhwysfawr i chi ar ein cynnydd yn y maes hwn ym mis Medi 2025.

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**Argymhelliad 3: Dylai Trafnidiaeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am weithrediad y bwrdd perfformiad, gan gynnwys manylion penodol am sut y mae wedi cyflawni gwelliannau mesuradwy o ran canlyniadau a gwerth am arian.**

**Ymateb:** Derbyn

Diben y Bwrdd Perfformiad yw dwyn TrC i gyfrif a sicrhau bod cysondeb rhwng TrC a Llywodraeth Cymru o ran blaenoriaethau, y cyfeiriad yr ydym yn teithio iddo a gweithgareddau'r Cynllun Busnes. Fel rhan o'r bwrdd, rydym yn adolygu dangosyddion perfformiad allweddol, yn enwedig y rhai mewn meysydd lle mae perfformiad is ac mae hyn yn caniatáu i TrC a Llywodraeth Cymru nodi atebion lle mae problemau o'r fath yn codi. Mae hyn hefyd yn caniatáu i ni reoli aliniad y gweithgareddau hyn yn fwy effeithlon, yn rhoi cyngor i'r Bwrdd Llywio ac yn cynrychioli llwybr ar gyfer uwchgyfeirio materion.

Un o'r prif fuddion rydyn ni wedi'u gweld ers cyflwyno llywodraethu o'r lefel hon yw bod cydweithio ar bob lefel y sefydliadau wedi gwella, sydd wedi arwain at gynllunio busnes a chyllidebu gwell. Mae alinio'r prosesau gosod cyllideb blynyddol wedi golygu bod ein rhagolygon wedi gwella ac wedi cefnogi'r sefydliad ehangach wrth ddyrannu cyllidebau.

Rydym hefyd wedi gweld cynnydd o ran monitro perfformiad ariannol a gweithredol yn barhaus. Mae hyn wedi galluogi Llywodraeth Cymru i wneud y mwyaf o'i gwariant eleni o ran cerbydau newydd, gan ddefnyddio tua £37 miliwn o gyllid wedi'i glustnodi efallai na fyddai wedi bod ar gael y flwyddyn nesaf.

**Argymhelliad 4: Dylai TrC roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o'i ddangosyddion perfformiad allweddol, gan gynnwys unrhyw newidiadau arfaethedig, o fewn y 6 mis nesaf.**

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Ers dechrau'r Flwyddyn Ariannol hon, rydym wedi bod yn manteisio ar y cyfle i adolygu ein dangosyddion perfformiad allweddol fel eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben, er mwyn sicrhau tryloywder a chaniatáu heriau o'r lefel briodol. Mae'r adolygiad hwn yn broses gam wrth gam a bydd yn ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod chwe mis yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor unwaith y bydd yr ymarfer hwn wedi dod i ben.

**Argymhelliad 5: Dylai Trafnidiaeth Cymru ystyried sut mae'n cyflwyno ei ddangosyddion perfformiad allweddol, gyda'r nod o sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael dealltwriaeth lawn o'i berfformiad. Gallai hyn gynnwys adran yn yr adroddiad blynyddol sy'n egluro ei gynnydd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.**

**Ymateb:** Derbyn

Ar hyn o bryd rydym yn cyhoeddi ein dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y chwarter ochr yn ochr â'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol sy'n darparu cymhariaeth er mwyn dangos newid mewn perfformiad a sicrhau tryloywder (Dangosyddion perfformiad allweddol | Trafnidiaeth Cymru).

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Wrth i ni ddod yn wirioneddol aml-foddol, byddwn yn datblygu ffordd haws i ddefnyddwyr weld a deall ein perfformiad, a bydd y broses yn parhau i esblygu wrth i ni symud trwy'r daith hon. Rydym yn bwriadu defnyddio'r dangosyddion perfformiad allweddol hyn i ddisgrifio ein cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn ein hadroddiad blynyddol.

**Argymhelliad 6: Dylai Trafnidiaeth Cymru weithio gyda Llywodraeth Cymru i nodi ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at yr adferiad arafach o ran nifer y teithwyr bws yng Nghymru o'i gymharu ag yn Lloegr a'r Alban. Yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn, dylai Trafnidiaeth Cymru ddatblygu a gweithredu mesurau i fynd i'r afael â'r problemau hyn wrth baratoi ar gyfer masnachfreinio bysiau.**

**Ymateb:** Derbyn

Er bod adferiad nifer y teithwyr ar ôl y pandemig wedi bod yn arafach yng Nghymru, mae Ystadegau Bysiau Blynyddol yr Adran Drafnidiaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dangos arwydd addawol bod pobl yn parhau i ddychwelyd i ddefnyddio gwasanaethau bws yng Nghymru. Fodd bynnag, fel y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i ddatgan yn flaenorol, nid yw adferiad nifer y teithwyr yn unffurf ledled Cymru, gyda niferoedd y teithwyr sy'n defnyddio cardiau teithio rhatach yn parhau i fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig.

Wrth i ni baratoi ar gyfer masnachfreinio bysiau, byddwn yn cynnal ymchwil a dadansoddiad ar y cyd â Llywodraeth Cymru a fydd yn ein helpu i ddeall ymhellach y ffactorau sy'n cyfrannu at yr adferiad arafach o ran nifer y teithwyr bws yng Nghymru. Yn benodol, rydym yn ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd mewn perthynas â dylunio rhwydwaith bysiau a fydd yn cefnogi hyn. Byddwn yn monitro cyfraddau cyfranogiad yn agos er mwyn sicrhau bod lleisiau teithwyr sy'n defnyddio cardiau teithio rhatach a'r rhai nad ydynt yn eu defnyddio ond sy'n gymwys i'w cael yn cael eu clywed a'u hystyried.

**Argymhelliad 7: Dylai Trafnidiaeth Cymru sicrhau bod gwasanaethau bws gwledig a phellter hir yn cael ystyriaeth benodol wrth ddatblygu tocynnau integredig er mwyn sicrhau mynediad cyfartal ar draws pob rhan o Gymru. O fewn chwe mis i gyhoeddi'r Adroddiad hwn, dylai Trafnidiaeth Cymru ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf o ran y cynnydd a wnaed wrth gyflwyno opsiynau talu trwy dapio i mewn a thapio allan i'r rhai sy'n defnyddio cardiau teithio rhatach.**

**Ymateb:** Derbyn

Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau bws gwledig a phellter hir yn cael ystyriaeth benodol, rydym wedi datblygu amrywiaeth o opsiynau tocynnau integredig ar gyfer ein cwsmeriaid TrawsCymru. Er enghraifft, mae teithwyr sy'n defnyddio gwasanaethau T1 a T2 yn gallu prynu tocynnau a chynllunio teithiau ar blatfformau cynllunio a manwerthu cwmnïau rheilffyrdd cenedlaethol yn uniongyrchol i gyrchfannau am bris ychwanegol syml. Rydym yn bwriadu cyflwyno hyn ar draws rhwydwaith ehangach TrawsCymru wrth i ni gymryd drosodd gweithrediad y contractau hyn. Yn ogystal â hyn, rydym wedi datblygu dull newydd a chyson o ran prisiau tocynnau ar rwydwaith TrawsCymru gyda system brisio fesul rhan y daith a strwythur sy'n seiliedig ar bellter, sydd wedi lleihau cost teithiau unffordd i'r rhan fwyaf o deithwyr.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Yng Ngogledd Cymru, mae Trafnidiaeth Cymru wedi hwyluso datblygiad cynllun tocynnau aml-weithredwr 1Bws, gyda mentrau tocynnau digidol newydd a thrwy gyflwyno cynllun Tap Ymlaen Tap Ymadael (TYTY). Mae hyn yn cynnig teithiau dyddiol neu wythnosol wedi'u capio i deithwyr ar draws y rhwydwaith yn seiliedig ar y tocyn gwerth gorau sydd ar gael iddynt.

Fodd bynnag, nid ydym yn bwriadu cyflwyno TYTY ar gyfer y rhai sy'n defnyddio cardiau teithio rhatach am sawl rheswm. Yn gyntaf, mae'n ofynnol i yrwyr wirio cardiau teithio rhatach gan ddefnyddio peiriant tocynnau electronig. Rhaid iddynt hefyd gynnal gwiriadau ychwanegol gan ddefnyddio'r llun ar gerdyn deiliad y cerdyn i sicrhau bod y pris yn ddilys.

Yn ogystal â hyn, mae nifer o'r disgowntiau rhatach yn cefnogi teithio am ddim ac felly nid oes angen capio prisiau. Dyma brif bwrpas TYTY, felly nid oes gofyniad i'r disgowntiau consesiynol hyn fod yn gydnaws â'r cynllun. Gweler y tabl isod am ddadansoddiad o'r gwahanol fathau o ddisgownt consesiynol ar gyfer bysiau yng Nghymru:

| Math o gerdyn teithio rhatach | Disgownt |
|---|---|
| O dan 5 | Am ddim |
| Oedrannau 5-15 | 33% oddi ar bris tocynnau |
| Oedrannau 16-21 | 33% oddi ar bris tocynnau gyda FyNgherdynTeithio (Preswylwyr Cymru yn unig, gan gynnwys myfyrwyr) |
| Oedrannau 16-21 (Peilot) | £1.00 am docyn unffordd/£3.00 am docyn diwrnod |
| 60+ oed | Teithio am ddim gyda thocyn bws rhatach Llywodraeth Cymru (preswylwyr Cymru yn unig) |
| Anabl (cymwys) | Teithio am ddim gyda thocyn bws rhatach Llywodraeth Cymru (preswylwyr Cymru yn unig) |
| Pensiynwr Rhyfel (rhyddhad meddygol ar bensiwn llawn) | Teithio am ddim gyda thocyn bws rhatach Llywodraeth Cymru (preswylwyr Cymru yn unig) |

**Argymhelliad 8: Dylai Trafnidiaeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu ei gynllun cydnerthedd yn wyneb newid yn yr hinsawdd, gan ddarparu manylion ar gynnydd y camau penodol a gymerwyd i fynd i'r afael â'r risgiau cynyddol a achosir gan ddigwyddiadau tywydd garw.**

**Ymateb:** Derbyn

Byddwn yn darparu diweddariad blynyddol llawn ar ein Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chydnerthedd yn Hydref 2025.

Bydd y diweddariad yn cynnwys asesiad o raddfa'r risg hinsawdd yn y dyfodol i asedau TrC; manylion am ganlyniadau ein harolygon safle Asesiad Risg Newid Hinsawdd; diweddariad ar ein cynlluniau rheoli ac ymateb ar gyfer digwyddiadau tywydd eithafol; ein cyfraniadau at Grwpiau Gwaith Ymaddasu i Newid Hinsawdd traws-ddisgyblaethol ar gyfer Perchnogion Seilwaith y DU a Chymru; ein gwaith partneriaeth â Network Rail i weithredu safonau cydnerthedd a datblygu llwybrau addasu; a mwy.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**Argymhelliad 9: Dylai Trafnidiaeth Cymru barhau i weithio gyda Chyd-bwyllgorau Corfforaethol i integreiddio cydnerthedd yn wyneb newid yn yr hinsawdd i Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd maes o law.**
**Ymateb:** Derbyn

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Chyd-bwyllgorau Corfforaethol i rannu ein harbenigedd a chynnig cefnogaeth wrth ddatblygu eu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh). Mae cydnerthedd yn wyneb newid yn yr hinsawdd yn un o'r meysydd allweddol, ac mae ein timau'n ymgysylltu'n weithredol ag awdurdodau lleol, gwasanaethau brys a llywodraeth leol ar hyn. Er enghraifft, mae TrC yn aelod o Fwrdd Argyfwng Hinsawdd Caerdydd, a thrwy hynny rydym yn cyfrannu at amrywiaeth o ymgynghoriadau. Yn fwyaf diweddar, fe wnaethom ddarparu adborth ar ymgynghoriad Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

**Argymhelliad 10: Dylai Trafnidiaeth Cymru weithio gyda thirfeddianwyr a Network Rail i ddatblygu a gweithredu strategaethau lliniaru gwell ar gyfer llwybrau rheilffordd sy'n agored i lifogydd, yn enwedig ar Brif Linell Gogledd Cymru a llwybrau Henffordd.**

**Ymateb:** Derbyn

Rydym wedi bod yn cydweithio â Network Rail, a byddwn yn parhau i wneud hynny, er mwyn datblygu strategaethau ymaddasu a chydnerthedd ar gyfer Rhanbarth Cymru a'r Gorllewin. Mae NR wedi cynnal nifer o weithdai ar gynlluniau ymaddasu i newid yn yr hinsawdd, sy'n edrych ar y risgiau hinsawdd i'r rheilffordd mewn ardaloedd penodol ac yn datblygu strategaethau cydnerthedd ar y cyd i liniaru'r risgiau hyn. Ystyriwyd amrywiaeth o beryglon tywydd gan gynnwys gwres, stormydd, methiannau gwaith pridd, llifogydd afonol a glawog a sut y bydd hyn yn effeithio arnom dros y 100 mlynedd nesaf.

Ystyriwyd cyfleoedd i liniaru risg hinsawdd ar gyfer llwybrau Caergybi i Fangor, Llinell y Gororau, Amwythig i Gobowen ac Amwythig i Nantwich.

Bydd y penderfyniadau a wneir yn y gweithdai hyn yn helpu i lunio dyfodol rhannau hyn y rheilffordd, gan lywio cynlluniau busnes a rheoli asedau. Caiff cyfleoedd eu hasesu o ran eu dichonoldeb a chaiff y camau cydnerthedd priodol eu categoreiddio yn seiliedig ar y cyd-destun lleol. Diffinnir y camau ymateb i ddigwyddiadau yng nghanllawiau cydnerthedd Tywydd fel: gwrthsefyll, adferiad cyflym, adlamu, atgyweirio neu gau (mewn trefn ostyngol yn ôl dewis). Rydym yn parhau i archwilio cyfleoedd i gyflawni'r canlyniadau hyn gyda Network Rail.

Law yn llaw â hyn, mae TrC hefyd yn y broses o ddatblygu Strategaeth Ymdopi â’r Tywydd ac Ymaddasu i Newid yn yr Hinsawdd (WRCCA) a datblygu metrigau meintiol ar gyfer cydnerthedd ac ymaddasu er mwyn mesur cynnydd yn erbyn ein Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chydnerthedd cyffredinol.

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**Argymhelliad 11: Dylai Trafnidiaeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei waith gydag awdurdodau lleol i ddatblygu canllawiau monitro newydd a gwella dulliau casglu data ar gyfer mentrau teithio llesol.**

**Ymateb:** Derbyn
Ddydd Iau 15 Mai, rhannodd Trafnidiaeth Cymru fersiwn o'i Becyn Cymorth Monitro a Gwerthuso Teithio Llesol gyda Swyddogion Awdurdodau Lleol. Mae'r pecyn cymorth hwn yn adeiladu ar gyhoeddiad y Fframwaith Monitro Teithio Llesol (FfMTLl), sy'n sefydlu llinell sylfaen i olrhain a monitro cynnydd wrth gyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer teithio llesol.

Datblygwyd y pecyn cymorth ar y cyd ag Uned Ymchwil a Monitro Sustrans, gydag adborth gan Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Teithio Llesol, i ddarparu canllawiau ymarferol i Awdurdodau Lleol wrth ymgymryd â gweithgareddau monitro a gwerthuso cynlluniau cerdded, teithio ar olwynion a beicio yng Nghymru. Mae'r pecyn cymorth yn adeiladu ar wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yng Nghanllawiau Deddf Teithio Llesol a'r deunydd sy'n cyd-fynd â grantiau trafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Mae'n darparu un ffynhonnell o ganllawiau manwl ac ymarferol i helpu awdurdodau lleol i gynllunio a chynnal gweithgareddau monitro, gwerthuso ac adrodd sy'n bodloni gofynion Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a chyllid grant Llywodraeth Cymru.

Mae'r pecyn cymorth yn ategu'r gefnogaeth bresennol a gynigir gan TrC i swyddogion Awdurdodau Lleol, ac mae'n cynnwys canllawiau ar wahanol agweddau ar fonitro a gwerthuso llwybrau teithio llesol (megis datblygu cynlluniau monitro a gwerthuso strategol a phenodol i gynlluniau neu osod amcanion CAMPUS). Bydd y pecyn cymorth yn helpu i wella ansawdd a chysondeb gweithgareddau casglu data ar gyfer cynlluniau teithio llesol, yn dilyn ceisiadau blaenorol gan awdurdodau lleol am ganllawiau ar gasglu data ar lefel cynlluniau, ac yn cyflawni un o'r camau gweithredu a nodir yng Nghynllun Cyflawni Teithio Llesol Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 12: Dylai TrC ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y mesurau diogelwch sydd ar waith i sicrhau nad yw rôl ddeuol Sustrans wrth gefnogi ac asesu ceisiadau am gyllid yn arwain at unrhyw ganfyddiad o ddylanwad amhriodol.**

**Ymateb:** Derbyn

Er mwyn lleihau gwrthdaro buddiannau lle bo modd, mae'n ofynnol i swyddogion Sustrans sy'n cefnogi'r broses arfarnu ar gyfer ceisiadau Cronfa Teithio Llesol lenwi ffurflen Gwrthdaro Buddiannau cyn y broses arfarnu. Bwriad hyn yw nodi unrhyw ragfarnau posibl a allai ddylanwadu ar arfarniadau.

Yn ogystal â hyn, os yw swyddog Sustrans yn gweithio ar gynllun ar ran Sustrans drwy gomisiwn i'r Awdurdod Lleol, ni allant gymryd rhan yn yr asesiad cyllido ar gyfer y cynllun. Ymhellach i hyn, cytunwyd gyda Sustrans y bydd diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu i Lywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru ar unrhyw waith y maent yn ei wneud ar ran awdurdodau lleol fel y gallwn fonitro eu cyfranogiad.

Byddwn yn adolygu mesurau diogelwch yn barhaus i sicrhau eu bod yn gadarn ac yn effeithiol.

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**Argymhelliad 13: Dylai Trafnidiaeth Cymru archwilio pob opsiwn sydd ar gael iddo i sicrhau bod trenau sydd heb eu darparu yn cael eu cyflwyno yn brydlon. O ystyried yr effaith ar y pwrs cyhoeddus, os oes angen, dylai Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth ymyrryd.**

**Ymateb:** Derbyn

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo i archwilio'r holl opsiynau sydd ar gael i sicrhau bod trenau rhagorol yn cael eu cyflwyno yn brydlon. Fel y dangoswyd yn ystod y sesiwn graffu, rydym yn defnyddio pob adnodd posibl yn ein blwch arfau, yn gytundebol a thrwy ddefnyddio pwysau cymdeithasol a gwleidyddol, i sicrhau bod ein gweithgynhyrchwyr yn cael eu dwyn i gyfrif am gyflwyno ein trenau newydd.

**Argymhelliad 14: Dylai Trafnidiaeth Cymru ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ynghylch cyflwyno trenau newydd, gan gynnwys cynnydd yn erbyn y terfynau amser y cytunwyd arnynt a'r mesurau a gymerwyd i liniaru oedi, o ystyried yr effaith ar fuddsoddiad cyhoeddus a dibynadwyedd gwasanaethau.**

**Ymateb:** Derbyn

Ar hyn o bryd rydym yn cyhoeddi diweddariadau ynghylch canran y teithiau a wneir ar drenau newydd ar sail ad hoc er mwyn cyd-fynd â cherrig milltir o ran mynediad at wasanaethau. Byddwn yn archwilio opsiynau i safoni'r diweddariadau hyn i roi gwybod i'r Pwyllgor a'n cwsmeriaid am ein cynnydd.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo i archwilio'r holl opsiynau sydd ar gael i sicrhau bod trenau rhagorol yn cael eu cyflwyno yn brydlon. Fel y dangoswyd yn ystod y sesiwn graffu, rydym yn defnyddio pob adnodd posibl yn ein blwch arfau, yn gytundebol a thrwy ddefnyddio pwysau cymdeithasol a gwleidyddol, i sicrhau bod ein gweithgynhyrchwyr yn cael eu dwyn i gyfrif am gyflwyno ein trenau newydd.

**Argymhelliad 15: Dylai Trafnidiaeth Cymru ddatblygu a gweithredu mesurau perfformiad wedi'u teilwra i adlewyrchu'r gwahanol fathau o wasanaethau rheilffordd yng Nghymru yn well.**

**Ymateb:** Derbyn

Rydym wrthi'n datblygu ffordd wedi'i theilwra o fesur perfformiad ar linellau'r Cymoedd, ac rydym yn bwriadu ei chyflwyno pan fydd prosiect trawsnewid Metro De Cymru wedi'i gwblhau.

**Argymhelliad 16: Dylai TrC gyhoeddi data perfformiad fesul llwybrau yn rheolaidd ar gyfer ei wasanaethau mewn ffordd sy'n hygyrch i deithwyr.**

**Ymateb:** Derbyn

Cyhoeddir data perfformiad TrC yn rheolaidd (bob 4 wythnos) ac mae'r data hyn ar gael i gwsmeriaid ar wefan Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd ac ar ein tudalen Perfformiad Trenau.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Mae gwefan Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd yn caniatáu i gwsmeriaid chwilio yn ôl gorsaf am ystadegau ar ganran y trenau, yn ystod cyfnod penodol, a gafodd eu canslo a'r rhai a gyrhaeddodd yr orsaf o fewn tair munud i'w hamser yn ôl yr amserlen.

**Argymhelliad 17: Dylai Trafnidiaeth Cymru barhau â'i ymdrechion i wella'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch terfynu gwasanaethau a'u heffeithiau, a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch gwelliannau pellach a gynlluniwyd a sut y gweithredir y rhain ar draws y rhwydwaith.**

**Ymateb:** Derbyn

Mae gwella perfformiad a dibynadwyedd ein gwasanaethau yn barhaus wrth wraidd ein prosesau gwneud penderfyniadau yn TrC. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn profi'r gwasanaeth gorau posibl ac y caiff cyfraddau tarfu ar deithiau eu lleihau gymaint â phosibl.

Y llynedd, cyflwynwyd newidiadau sylweddol i'r amserlen ar draws rhwydwaith Rheilffyrdd y Cymoedd a Chymru a'r Gororau ac rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n galed iawn i gyflwyno cerbydau newydd i wasanaeth. Fel gydag unrhyw newidiadau mawr i'r rheilffyrdd, mae'r ffactorau hyn wedi cael effaith ar ganran y trenau sy'n cael eu canslo yn ogystal â chyfraddau oedi ar wasanaethau. Rydym yn cydnabod hyn, ac mae ein ffocws ar wella perfformiad yn 2025/26 yn cynnwys sawl amcan allweddol.

Byddwn yn gweithio i leihau cyfraddau canslo trenau o ganlyniad i broblemau â cherbydau drwy wella dibynadwyedd ein fflyd. Erbyn yr haf hwn, rydym yn disgwyl y bydd ein holl gerbydau Dosbarth 756 tri-modd ar waith ar linellau'r Cymoedd a fydd yn ein galluogi i roi'r gorau i ddefnyddio rhai o'n trenau diesel hŷn, a etifeddwyd gennym. Yn ogystal â hyn, bydd dibynadwyedd gwell gerbydau Dosbarth 197 ar rwydwaith Cymru a'r Gororau yn lleihau cyfraddau cyfnewid cerbydau (lle mae'n rhaid tynnu trên allan o wasanaeth o ganlyniad i ofynion cynnal a chadw, yn aml ar fyr rybudd).

Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar leihau nifer y trenau sy'n cael eu canslo lle mae trenau'n 'rhedeg yn gyflym' ac felly'n cael eu nodi fel gwasanaethau 'wedi'u canslo'n rhannol'. Mae hyn yn cael effaith anghymesur ar rai llwybrau fel llinellau Coryton, Wrecsam-Bidston a phen deheuol llinellau'r Cymoedd. Gwneir y penderfyniadau hyn yn gyffredinol ar fyr rybudd oherwydd ymyriadau a wneir er mwyn lleihau oedi cyffredinol ar y rhwydwaith. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i leihau hyn gymaint â phosibl. Er enghraifft, ers mis Ebrill 2025 rydym wedi bod yn treialu ateb gwahanol o ran amserlenni ar linell Coryton i leihau tebygolrwydd yr ymyriadau hyn, ac rydym yn disgwyl y bydd y sbardun cyflymach trenau Dosbarth 756 yn helpu i leihau'r angen i adfer amser yn yr amserlen pan gânt eu cyflwyno.

Mae hi hefyd yn allweddol ein bod yn parhau i weithio'n agos gyda Network Rail a Seilwaith Amey Cymru, ein rheolwr asedau, pan fydd tarfu ar raddfa fawr, sy'n para sawl diwrnod, yn digwydd o ganlyniad i ddigwyddiadau ar y rhwydwaith. Lle nad yw TrC yn gallu cael mynediad at y seilwaith llawn o ganlyniad i'r digwyddiadau hyn, byddwn yn cydweithio â'r rhanddeiliaid hyn ac yn gwneud ein gorau i roi tawelwch meddwl i deithwyr y diwrnod cyn y teithiau yn hytrach nag ar ddiwrnod y daith. Ymhellach i hyn, byddwn yn parhau i weithio tuag at gyflymu'r ymateb i ddigwyddiadau gweithredol fel bod anghyfleustra i deithwyr yn cael ei leihau gymaint â phosibl.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**Argymhelliad 18: Dylai Trafnidiaeth Cymru sicrhau bod ei waith ar symleiddio prisiau, gan gynnwys systemau tapio i mewn a thapio allan, yn cyd-fynd â mesurau diogelwch i atal cynnydd gormodol mewn prisiau. Dylai fforddiadwyedd ar gyfer teithio hanfodol, yn enwedig i deithwyr incwm is, barhau i fod yn flaenoriaeth.**

**Ymateb:** Derbyn

Wrth wraidd strategaeth symleiddio prisiau TrC mae'r ymrwymiad i gynnig gwerth gwell am arian i gwsmeriaid drwy gynnyrch heb eu rheoleiddio. Fel rhan o gynllun gosod prisiau gwahaniaethol a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2025, cynyddwyd prisiau Advance a Thalu Wrth Fynd (PAYG) ar gyfradd is na phrisiau wedi'u rheoleiddio sy'n cynyddu eu gwerth ymhellach.

Fel y soniais yn flaenorol, rydym wedi lansio cynllun partneriaeth Tanysgrifiadau Digidol a Theyrngarwch yn ddiweddar sy'n caniatáu i bob aelod elwa o ostyngiadau fel gwobr am deithio gyda TrC. Mae hyn yn datgloi gostyngiadau i gwsmeriaid nad ydynt efallai'n gymwys ar gyfer unrhyw gerdyn rheilffordd presennol, gyda hyd at 35% oddi ar bris docynnau Advance.

**Argymhelliad 19: Dylai TrC weithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i sicrhau bod buddiannau rheilffyrdd Cymru yn cael eu hystyried yn llawn wrth ddatblygu a gweithredu Rheilffyrdd Prydain Fawr.**

**Ymateb:** Derbyn

Mae Trafnidiaeth Cymru yn gyfranogwr o Fwrdd Rheilffyrdd Cymru, ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru ac Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU. Mae gan Fwrdd Rheilffyrdd Cymru'r dasg o nodi a datblygu cyfres o gynigion, yn seiliedig ar flaenoriaeth, ar gyfer gwella a buddsoddi mewn seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, rydym wedi ymrwymo i weithio gyda llywodraethau Cymru a'r DU, Great British Railways Cysgodol a Network Rail i ddylunio ateb yn seiliedig ar fodel partneriaeth sy'n sicrhau manteision diwygio'r diwydiant rheilffyrdd i gwsmeriaid rhwydwaith Cymru a'r Gororau.

Bydd yr ymdrech gydweithredol hon yn sicrhau bod anghenion a blaenoriaethau unigryw Cymru yn cael eu hintegreiddio'n llawn i strategaeth reilffyrdd ehangach y DU. Byddwn yn parhau i gefnogi'r ymgysylltiad a'r trafodaethau sydd eisoes yn digwydd rhwng y ddwy lywodraeth fel bod blaenoriaethau'n cael eu cysoni a bod buddiannau rheilffyrdd Cymru yn cael eu hystyried yn llawn.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales


**Argymhelliad 20: Dylai Trafnidiaeth Cymru ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ynghylch sut y gallai'r trosglwyddiad i Great British Railways effeithio ar wasanaethau rheilffyrdd Cymru, gan gynnwys unrhyw heriau disgwyliedig a mesurau lliniaru arfaethedig.**

**Ymateb:** Derbyn

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y trosglwyddiad i Great British Railways a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar wasanaethau rheilffyrdd Cymru yn unol â cherrig milltir Diwygio Rheilffyrdd y DU. Os oes gan y Pwyllgor unrhyw gwestiynau penodol ar y pwnc hwn, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Dw i'n ymddiried bod y Pwyllgor yn gweld y manylion a ddarparwyd yn yr ymateb hwn yn ddefnyddiol a dw i'n ymrwymo i ysgrifennu eto ynghylch **Argymhellion 1 a 2** ym mis Medi 2025, a byddaf yn darparu diweddariadau pellach ar **Argymhelliad 4** ar ôl i ni gwblhau ein hadolygiad mewnol o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol. Yn y cyfamser, os gallaf fod o gymorth pellach, mae croeso i chi gysylltu.

Cofion cynnes,



James Price
Prif Weithredwr / Chief Executive